**Sesiwn 1999-2000 Rhif 32**

**PAPURAU BUSNES**

**RHAN 2 – ADRAN H**

# COFNOD PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MERCHER, 17 Tachwedd 1999

**Dechreuodd y sesiwn am 2pm**

## Cwestiynau i Peter Law, Ysgrifennydd dros Lywodraeth Leol a'r Amgylchedd

Atebwyd y 5 cwestiwn cyntaf.

**2.24pm**

**Cwestiwn brys i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**; A oes ganddo sylwadau ar gau'r ffatrïoedd Remploy yng Nghastell-nedd, Brynaman ac Ystradgynlais

**2.42pm**

**Mater o Drefn:** Cododd **Cynog Dafis** fater o drefn yn gofyn i'r Llywydd a fyddai'n fodlon paratoi cyfarwyddyd am ddefnyddio'r gair "cenedlaethol". Dywedodd y Llywydd fod y mater hwn wedi'i godi mewn cyfarfod llawn blaenorol ac, fel llawer gair arall, mae'n gallu bod yn amwys ond ni fyddai'n rhoi cyfarwyddyd ynghylch ei ddefnyddio.

**Mater o Drefn:** Cododd **Rhodri Glyn Thomas** fater o drefn yn gofyn i'r Llywydd a oedd ganddo unrhyw ddylanwad ar eiriau ar arwyddion ffyrdd, yn benodol y rhai a leolir yn agos i Adeiladau'r Cynulliad. Dywedodd y Llywydd nad oedd ganddo.

**2.28pm**

## Dadl ar Lwfansau

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu gwella Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau etc) 1999 fel a ganlyn:

(a) Ar gyfer adran 4.7, newid y canlynol:

"**4.7 Teithio mewn Tacsi**

4.7.1 Yn amodol ar 4.7.2 a 4.7.3, os yw Aelod yn teithio mewn tacsi ar waith y Cynulliad gall hawlio ad-daliad heb fod yn fwy na chyfradd uchaf y Lwfans Milltiroedd mewn Cerbyd a bennwyd yn adran 4.5.1.

4.7.2 Os nad oedd yn rhesymol ymarferol i aelod deithio ac eithrio mewn tacsi, gall hawlio'r gost yn llawn.

4.7.3 Mewn unrhyw achos, y mwyaf y gall Aelod ei hawlio fel ad-daliad dan y lwfans hwn yw union lefel y gost."
(b) yn adran 18 (Lwfans Arweinydd Plaid) ar gyfer adran 18.1.1 a 18.1.2 dylid newid y canlynol:

"18.1.1 Mae gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol yr hawl i lwfans i'w cynorthwyo â'u dyletswyddau ychwanegol fel Aelodau o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn arwain grwpiau. Mae'r lwfans yn daladwy ar gyfer costau angenrheidiol sy'n codi i ddibenion cyflawni'r cyfrifoldebau ychwanegol hynny yn unig.

18.1.2. Nid yw'n bosibl llunio rhestr gynhwysfawr o eitemau i'w cynnwys, ond gall yr enghreifftiau canlynol gynorthwyo arweinwyr plaid wrth benderfynu a ellir gwneud cais:

- cyflogi staff i wneud gwaith gweinyddol, clercyddol neu ysgrifenyddol.
- cyflogi staff i wneud gwaith ymchwil.
- cael offer swyddfa, er enghraifft TG neu lyfrau

18.1.2A Ni ellir hawlio cost ad-dalu morgais, gan gynnwys llog ar y morgais hwnnw.

18.1.2B Mae gofyn i arweinwyr pleidiau roi datganiad ysgrifenedig i'w haelodau staff yn nodi prif amodau a thelerau eu cyflogi, gan roi copi o fewn un mis i'r Swyddfa Ffioedd."

(c) Ar gyfer adran 11 dylid newid y canlynol:

**"11. PENSIWN STAFF AELODAU**

**11.1 Hawl**

11.1.1 Gall Aelodau hawlio lwfans ar gyfer costau cyfraniadau a wneir ganddynt i gynlluniau pensiwn personol unrhyw staff a delir o:

(a) Lwfans Cyflogau Staff; neu

(b) Lwfans Arweinydd Plaid.

11.1.2 Y swm uchaf y gellir ei dalu yw 10% o'r cyflog gwirioneddol neu ffi a delir i'r aelod staff dan sylw yn amodol, yn achos aelodau staff a delir o'r Lwfans Cyflogau Staff, ar uchafswm cyffredinol ar gyfer Aelodau unigol o 10% o'r Lwfans Cyflogau Staff[3] y mae ganddynt yr hawl iddo. Nid yw'r lwfans hwn yn cyfrif yn erbyn Lwfans Cyflogau Staff na Lwfans Arweinydd Plaid.

11.1.3 Cyn belled ag y bo'r Aelodau'n aros o fewn cyfyngiadau'r Lwfans Cyflogau Staff neu'r Lwfans Arweinydd Plaid, fel y bo'n briodol, gall Aelodau hawlio ar gyfer unrhyw staff a gyflogir ganddynt dan y Lwfans Cyflogau Staff neu Lwfans Arweinydd Plaid, fel y bo'n briodol, i dalu cyfraniadau pensiwn ychwanegol mewn perthynas ag enillion dan y Lwfans Ysgrifenyddol Dros Dro"

Bwriwyd pleidlais (yr oedd angen mwyafrif 2/3 i basio’r cynnig):

O blaid 43

Yn erbyn 0

Yn atal 0

Cyfanswm 43

**2.55pm**

**Dadl ar yr Oes Wybodaeth**

"Bod y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd yr Oes Wybodaeth sydd ar ddod i ddatblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru, ac yn cadarnhau rôl y Cynulliad yn unol â drafft y Cynllun Datblygu Economaidd Cenedlaethol o roi cefnogaeth frwd, gyda'n partneriaid yn y sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat, i hybu ymwybyddiaeth o uwch dechnolegau gwybodaeth, i sicrhau eu datblygiad ac i sicrhau y gwneir defnydd helaeth ohonynt ym mhob sector yng Nghymru.

Cyflwynwyd y Cynllun ar 14/10/99 ac mae ar gael ar y Fewnrwyd.

Dewiswyd y gwelliannau canlynol:

**Gwelliant 1 - Michael German (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

"Mae’r Cynulliad hwn yn cydnabod ymhellach nad yw llawer adran o gymdeithas wedi cael rhwydd hynt i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ac mewn ymgynghoriad â’r partneriaid a ddisgrifir uchod, mae’n penderfynu ymchwilio i’r materion canlynol :

- unrhyw anghydbwysedd gender neu ethnig o ran cael cyfle i ddefnyddio TGCh a manteisio ar hynny
- y cysylltiadau rhwng anfantais economaidd a diffyg cyfle i ddefnyddio TGCh
- TGCh drwy gyfrwng y Gymraeg
- TGCh ar gyfer busnesau bach
- TGCh ar gyfer pobl ag anableddau
- gwella'r gallu i ddefnyddio TGCh a'r cyfraniad penodol y gall hynny ei wneud i leihau ynysu a dieithrwch cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig"

**Gwelliant 2 - Michael German (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

"Ac er mwyn cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi'r dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, bod y Cynulliad yn penderfynu bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ymchwilio i ddatblygu gwefan allanol y Cynulliad yn borth gwybodaeth am Gymru ar y Rhyngrwyd"

**Gwelliant 3 - Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

"Yn benodol, mae'r Cynulliad yn cydnabod:

- ei bod yn hanfodol sefydlu rhwydwaith telegyfathrebu amrediad-eang cynhwysfawr i wasanaethu pob rhan o Gymru os yw pob cymuned i rannu manteision yr Oes Wybodaeth
- bod rhaid i'r isadeiledd hwn fynd law yn llaw â rhaglen hyfforddi gyfochrog i gyflwyno posibiliadau llawn TGCh i holl elfennau'n cymdeithas (gan gynnwys Mentrau Bach a Chanolig a chyrff gwirfoddol), ynghyd â rhwydweithiau cymorth lleol i ddarparu cymorth parhaus i ddefnyddwyr unigol.

**Gwelliant 4 - Phill Williams (Dwyrain De Cymru)**

Mae'r Cynulliad yn nodi hefyd bod Cymru eisoes yn gryf o ran technolegau diweddaraf TGCh, megis cynhyrchu ffibr-optig ac opto-electroneg, a dylid ystyried yr hwb i'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru yn rhan ganolog a phwysig o'r rhaglen gyffredinol."

Cynhaliwyd pleidlais:

**Gwelliant 1**

O Blaid 40

Yn Erbyn 6

Ymatal 0

Cyfanswm 46

Pasiwyd y gwelliant

**Gwelliant 2**

O Blaid 12

Yn Erbyn 23

Ymatal 12

Cyfanswm 47

Methodd y gwelliant

**Gwelliant 3**

O Blaid 47

Yn Erbyn 0

Ymatal 0

Cyfanswm 47

Pasiwyd y gwelliant

**Gwelliant 4**

O Blaid 47

Yn Erbyn 0

Ymatal 0

Cyfanswm 47

Pasiwyd y gwelliant

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd:**

O Blaid 47

Yn Erbyn 0

Ymatal 0

Cyfanswm 47

Pasiwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd

**Daeth y sesiwn i ben am 4.37pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm, ddydd Mawrth, 23 Tachwedd 1999**

**PAPURAU A OSODWYD YN Y SWYDDFA GYFLWYNO ERS I'R CYNULLIAD GYFARFOD YN LLAWN DDIWETHAF**

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 4 TACHWEDD 1999**

- Adroddiad i'r Cynulliad ar Gynigion i Newid Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 26.1

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 5 TACHWEDD 1999**

- The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) Regulations 2000. (Dim copïau electronig ar gael)

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 10 TACHWEDD 1999**

- Rheoliadau Rhestri Ardrethu Canolog (Cymru) 1999 a phenderfyniad y Dirprwy Lywydd.
- The Water Undertakers (Rateable Values) (Wales) Order 1999.
- Ail Adroddiad y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig - Darlledu yng Nghymru a'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Rheoliadau Cymorth Trwsio'r Cartref (Estyniad) (Cymru) 1999

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 11 TACHWEDD 1999**

- ACCAC: Annual Report and Accounts for the year ended 31 March 1999.

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 15 TACHWEDD 1999**

- The Sports Council for Wales and Sportlot Annual Report 1998/99. (Dim copïau electronig ar gael)
- Adroddiad y Pwyllgor Deddfau i'r Cynulliad ar Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999
- Adroddiad y Pwyllgor Deddfau i'r Cynulliad ar Orchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyniad Rhif 1) (Cymru) 1999

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 16 TACHWEDD 1999**

- Rheoliadau Grantiau Adnewyddu (Diwygio) 1999
- Rheoliadau Grantiau Adnewyddu (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Diwygio) 1999
- Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurf Ceisiadau) (Diwygio) 1999
- Gwerthusiad Rheoliadol (ar gyfer y Gorchmynion Iechyd isod)
- The NHS Trusts (Wales) (Dissolution No2) Order 1999
- Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**